



## ? Sut i ddefnyddio'r daflen waith hon

- Os yn bosib, cerddwch o gwmpas yr ardal leol a gofynnwch i'r plant nodi unrhyw beth fyddai wedi bod yn amhosibl neu yn wahanol cyn trydan. Gofynnwch beth fyddai pobl wedi ei wneud neu ei ddefnyddio yn lle trydan. Mae enghreifftiau'n cynnwys goleuadau o bob math: goleuadau stryd, goleuadau mewn tai, goleuadau traffig ac arwyddion oleuedig a synau rhybuddio croesfannau pelican. Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys: ffonau (llinell a symudol); eitemau mewn siopau, megis setiau teledu a radios; a chyfarpar garddio fel periannau torri glaswellt.
- Gallech helpu'r plant i ystyried yr eitemau fyddai pobl wedi eu ddefnyddio cyn trydan, trwy ganolbwyntio ar yr hyn sydd yn roi egni i'r eitemau hyn i weithio. Gallai'r eitemau yma fod wedi'i bweru gan olew, nwy, tanwydd solet, dulliau mecanyddol neu gan anifeiliaid neu pobl.
- Gofynnwch i'r plant i edrych am unrhyw beth yn y lluniau ar y daflen waith sydd wedi newid ers i drydan gael ei ddyfeisio. Dylent sylwi ar hysbysfyrddau, goleuadau stryd, goleuadau siopau a goleuadau traffig. Efallai y byddant hefyd yn sylwi ar y gwahaniaeth mewn ceir yn yr hen lun a'r bws yn yr un newydd. Gallech nodi fod cerbydau modern yn defnyddio batris i ddechrau'r motor, yn ogystal â cherbydau trydan.



## ⚡ Ffeithiau Trydan Allweddol

- Dyfeisiwyd goleuadau traffig yn yr Unol Daleithiau, gan William Potts, a oedd yn heddwad o Detroit, Michigan. Dyfeisiwyd er mwyn datrys yr anhrefn ar heolydd a achosir gan gynyddiad yn y niferoedd o geir ar yr heolydd. Dechreuodd trwy addasu signalau rheilffordd, a oedd yn goch, yn felyn ac yn wyrdd. Gosodwyd y set cyntaf o oleuadau traffig pedair ffordd yn Detroit ym 1920.
- Defnyddiwyd goleuadau stryd yn Groeg yr henfyd: roeddent yn lampau olew, a cafwyd eu defnyddio i helpu pobl i weld lle'r oeddent yn cerdded mewn trefi ac i atal lladron. Roedd Rhufeiniaid cyfoethog yn berchen caethweision, a elwir yn 'lanternarii', a nhw oedd yn goleuo'r lampau olew o flaen eu filâu.
- Yn ystod oes Fictoria, roedd goleuadau stryd fel arfer yn cael eu goleuo gan nwy: roedd goleuwr lampau yn mynd gydag ysgol o lamp i lamp er mwyn ychwynegu'r olew a goleuo'r wiciau. Ar ôl ychydig, roedd dyfais tanio yn gweithredu a oedd yn taro fflam yn awtomatig pan oedd y nwy yn cael ei droi ymlaen.



Estyniad i'r ymarfer: Gallai'r plant ddewis nifer o ffotograffau hen a modern a'i trefnu mewn i'r categorïau hyn - 'cyn i trydan gael ei ddyfeisio' ac 'ar ol dyfeisiad trydan,' er wneud y wers yn fwy rhyngweithiol.

## Gwybodaeth ychwanegol y Cwricwlwm Cenedlaethol

### HANES

#### Ymchwiliad hanesyddol:

4a) darganfod newidiadau wrth nifer gwahanol o ffynonellau gwybodaeth

#### Lled astudiaeth, Astudiaeth hanes lleol:

7) astudiaeth sy'n ymchwilio sut mae agwedd yn yr ardal leol wedi newid

#### Prydain oes Fictoria:

11a) astudiaeth o effaith unigolion, digwyddiadau a newidiadau sylweddol yn y gwaith a thrafnidiaeth ar fywydau dynion, menywod a phlant o wahanol adrannau o gymdeithas

### SAESNEG

#### SA3 Ysgrifennu, Cyfansoddiad:

2a-f) cynllunio a ysgrifennu adroddiad

### Adnoddau Cysylltiedig

[www.nationalarchives.gov.uk/victorians/](http://www.nationalarchives.gov.uk/victorians/)





Edrychwch ar sut mae trydan wedi newid yr eitemau ar ein strydoedd.

Dyma Piccadilly Circus, yn Llundain, yn y Tri Degau a heddiw. Rhestrwch unrhywbeth y gallwch eu gweld yn yr ail lun ni fyddai wedi bod yn bosib heb drydan.



Llundain yn y Tri Degau



Llundain heddiw

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

**Nawr, rhowch  
gynnig ar hyn!**

- Ysgrifennwch adroddiad byr am berson o'r oes Fictoria yn cerdded yma. Dywedwch beth maen nhw'n ei wneud, gweld a chlywed.
- Ysgrifennwch eto ar gyfer rhywun yn yr unfed ganrif ar hugain. Defnyddiwch aroleuydd i nodi unrhyw beth sy'n wahanol oherwydd trydan.

